# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 8 a 15 Ebrill 2004

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

4 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

6 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

7 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

8 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

9 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

14 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

14 Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog

### Cyfanswm Cost Comisiwn Richard

**Nick Bourne:** Beth fu cyfanswm cost comisiwn Richard i Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ34135)

**Y Prif Weinidog:** Hyd yma mae comisiwn Richard wedi costio cyfanswm o £840,000. Mae hyn yn cynnwys cost lawn y comisiynwyr, yr holl gyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd a'r cyhoeddusrwydd a'r marchnata helaeth, yn ogystal â'r costau staff, gan gynnwys swyddfeydd. Dyma ddadansoddiad o'r costau:

| | |
|---|---|
| Y Comisiynwyr | £175,000 |
| Staff (gan gynnwys teithio) | £341,000 |
| Swyddfeydd | £115,000 |
| Offer swyddfa | £48,000 |
| Canolfannau cyfarfod | £95,000 |
| Cyhoeddusrwydd a marchnata | £66,000 |
| | £840,000 |

### Gwrthdaro rhwng Buddiannau Ymysg Aelodau'r Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alun Cairns:** Ymhellach at WAQ32003, a wnaiff y Prif Weinidog restru'r camau sydd wedi'u cymryd i atal unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau ymysg aelodau'r grwpiau? (WAQ34150)

**Y Prif Weinidog:** Mae natur grwpiau gorchwyl a gorffen yn golygu bod eu haelodau yn sicr bron o fod â rhyw ddiddordeb uniongyrchol yn y tasgau sydd i gael eu cyflawni neu eu trafod neu y rhoddir adroddiad arnynt. Mae hon yn sefyllfa nad oes modd ei hosgoi o dan yr amgylchiadau oherwydd yr angen i ddefnyddio profiad ac arbenigedd y rhai yr ystyrir eu bod fwyaf addas i fod yn aelodau. Mae cyfansoddiad grwpiau o'r fath yn cynrychioli cydbwysedd rhwng arbenigedd a buddiannau. Mae buddiannau ac arbenigedd aelodau unigol o grwpiau gorchwyl a gorffen yn hysbys, ym mhob achos, i'r aelodau eraill ac i'r swyddogion sy'n ymwneud â sefydlu'r grwpiau ac mae hyn yn lleddfu unrhyw broblemau a allai ddeillio o unrhyw wrthdaro o fewn cylch gorchwyl y grwpiau.

### Grwpiau Gorchwyl a Gorffen

**Alun Cairns:** Ymhellach at WAQ32003, a yw'r grwpiau yn cwrdd yn gyhoeddus ac a yw cofnodion eu cyfarfodydd ar gael i'r cyhoedd? (WAQ34151)

**Y Prif Weinidog:** Bydd hynny'n dibynnu ar natur gwaith y grŵp gorchwyl a gorffen. Fel y mae'r rhestr a ddarparwyd mewn ymateb i WAQ32003 yn ei ddangos, mae gwaith y gwahanol grwpiau hyn yn amrywio'n enfawr. Dim ond i roi cyngor i'r Gweinidogion ynghylch maes polisi penodol y mae rhai grwpiau'n bodoli, ac mewn achos felly nid yw'n debygol y byddai eu cyfarfodydd na'u cofnodion yn agored i'r cyhoedd. Sefydlwyd eraill er mwyn rhoi cyngor ynglŷn â chynhyrchu canllawiau neu ddogfen strategol o ryw fath. Yn yr achosion hynny, er na fyddai'r cyfarfodydd yn agored na'r cofnodion yn cael eu cyhoeddi efallai, byddai'r cynnyrch terfynol ar gael i'r cyhoedd. Mae cynllun cyhoeddi'r Cynulliad a Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ill dau yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhyddhau rhai mathau o wybodaeth i'r cyhoedd os gwneir cais am hynny.

### Penodi Aelodau i Grwpiau Gorchwyl a Gorffen (Egwyddorion Nolan)

**Alun Cairns:** Ymhellach at WAQ32003, a lynwyd at egwyddorion Nolan wrth benodi'r aelodau i bob un o'r grwpiau? (WAQ34152)

**Y Prif Weinidog:** Panelau cynghori ad hoc yw grwpiau gorchwyl a gorffen sy'n cael eu sefydlu i gyflawni tasg benodol, i adrodd arni ac yna i ymwahanu. Gwaith dros gyfnod cymharol fyr yw eu gwaith ac fel arfer mae'n benodol iawn ei natur, ac iddo ffocws pendant. Mae'n ofynnol felly fod aelodau'r grwpiau yn meddu ar lawer iawn o wybodaeth, arbenigedd a phrofiad mewn maes penodol. Mewn sawl achos, pennir aelodaeth grwpiau gorchwyl a gorffen drwy enwebiadau gan fudiadau sydd â buddiant yn y maes yn hytrach na bod Gweinidogion yn penodi unigolion. Gall yr enwebiadau adlewyrchu nid yn unig brofiad yr unigolyn ond hefyd y swydd y mae ynddi o fewn mudiad penodol. Mae hyn yn gyson ag egwyddor bennaf Nolan sef y dylid dethol unigolion sydd, drwy eu gallu, eu profiad a'u priodweddau, yn gweddu orau i anghenion y corff dan sylw. Lle penodir aelodau yn uniongyrchol gan Weinidogion, caiff egwyddorion Nolan eu harddel.

### Cyfrifoldeb dros Ddarlledu yng Nghymru

**Nick Bourne:** Yn sgîl datganiad y Prif Weinidog ynghylch comisiwn Richard yn y Cyfarfod Llawn, a wnaiff roi rhagor o fanylion ynghylch cynigion Llywodraeth y DU i drosglwyddo'r cyfrifoldeb dros ddarlledu i Gynulliad Cenedlaethol Cymru a nodi a fydd hyn yn cynnwys pob agwedd ar ddarlledu yng Nghymru ynteu darlledu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig? (WAQ34163)

**Y Prif Weinidog:** Yn ôl a ddeallaf cafodd y cynnig hwn ei wneud i Ysgrifennydd Gwladol Cymru cyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gael ei sefydlu ac at S4C yn unig y cyfeiriai.

## Cwestiynau i'r Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol (Buddsoddiad Cyfalaf Ychwanegol)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a fydd unrhyw fuddsoddiad cyfalaf yn cael ei wneud yn Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, yn ychwanegol at yr £1.3 miliwn y mae Comisiwn y Mileniwm yn ei fuddsoddi? (WAQ34098)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Mae ein cyfran gydradd o becyn ariannu o dair ffynhonnell a luniwyd gan y partneriaid ariannu yn y sector cyhoeddus wedi ei bwriadu i roi dechrau newydd i'r ardd. Bydd buddsoddiad cyfalaf Comisiwn y Mileniwm yn galluogi'r ardd i ddatblygu ymweliad diwrnod mwy deniadol a diddorol i amrywiaeth ehangach o ymwelwyr.

Yn amlwg, mae digonedd o botensial i'r ardd ddatblygu ei chyfleusterau. Bydd angen i'r ymddiriedolwyr ystyried y ffordd orau o wneud hyn er mwyn sicrhau bod ganddynt ddyfodol bywiog a chynaliadwy erbyn diwedd y cyfnod o gymorth gan y sector cyhoeddus.

### Rhoi Cyllid i Techniquest a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr £1 filiwn y flwyddyn a roddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i Techniquest, o'i gymharu â'r £1 filiwn dros bedair blynedd a ddyfarnwyd yn ddiweddar i'r ardd fotaneg genedlaethol? (WAQ34116)

**Alun Pugh:** Nid fi sy'n gyfrifol am yr arian a ddarperir i Techniquest, sy'n perthyn i bortffolio'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol oes. Mae'r arian yr wyf wedi'i gyhoeddi ar gyfer Middleton—Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru yn rhan o becyn ariannu o dair ffynhonnell ar y cyd â Chomisiwn y Mileniwm a Chyngor Sir Caerfyrddin. Mae hwn wedi'i fwriadu fel sylfaen gadarn y gellir sefydlogi sefylla ariannol yr ardd arni ar gyfer y dyfodol.

### Yr Ardd Fotaneg Genedlaethol (Ymddiriedolwyr)

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a ydyw wedi gofyn i ymddiriedolwyr yr ardd fotaneg genedlaethol ymddiswyddo? (WAQ34117)

**Alun Pugh:** Mae'r pecyn ariannu o dair ffynhonnell y cytunodd y partneriaid sector cyhoeddus arno yn amodol ar gryfhau'r llywodraethu corfforaethol a'r rheolaeth dros yr ardd.

### Ceisiadau i Lywodraeth Cynulliad Cymru am Arian

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog restru'r cyrff sydd wedi gwneud cais i Lywodraeth Cynulliad Cymru am arian o ganlyniad i dynnu'n ôl arian y loteri? (WAQ34181)

**Alun Pugh:** O ran fy mhortffolio i, nid wyf wedi derbyn unrhyw geisiadau am arian yn uniongyrchol am nad yw mudiadau yn cael arian mwyach gan y loteri. Yr wyf, fodd bynnag, wedi derbyn nifer o sylwadau oddi wrth brosiectau sy'n wynebu anawsterau wrth i arian y loteri ddod i ben. Yr wyf hefyd wedi derbyn nifer o lythyrau yn tynnu sylw at y problemau sy'n cael eu hachosi oherwydd y dirywiad cyffredinol yn incwm y loteri.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Grantiau i Brosiectau Ymwelwyr)

**Lisa Francis:** Pa gyngor y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi'i roi i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru ar y grantiau i brosiectau ymwelwyr? (WAQ34096)

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi rhoi cyngor i WEFO ynglŷn â grantiau Ewropeaidd i brosiectau ymwelwyr. Caiff pob cais prosiect am gyllid Ewropeaidd ei arfarnu ar ei haeddiant yn unol â'r rheolau y cytunodd y Comisiwn Ewropeaidd a Llywodraeth Cynulliad Cymru arnynt.

### Diwydiannau Creadigol yng Nghymru i'w Hadolygu gan y WDA

**Lisa Francis:** Pa rai o'r diwydiannau creadigol yng Nghymru fydd yn destun adolygiad gan Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ34102)

**Andrew Davies:** Bydd y strategaeth ar gyfer y diwydiannau celfyddydol sy'n cael ei datblygu gan Awdurdod Datblygu Cymru yn cynnwys y diwydiannau teledu, ffilm, cerddoriaeth, cyfryngau newydd a chyhoeddi.

### Yr Arolwg o'r Diwydiannau Creadigol Sydd i Ddod

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau y bydd yr arolwg o'r diwydiannau creadigol fydd yn cael ei gyhoeddi ym mis Gorffennaf yn destun ymgynghori cyn ei roi ar waith, ac a all ddweud pryd y caiff y cyfnod ymgynghori ei gynnal? (WAQ34103)

**Andrew Davies:** Mae'r gwaith o ddatblygu strategaeth ar gyfer y diwydiannau creadigol wedi'i seilio ar ddull o weithredu drwy ymgynghori. Mae'r tîm, o dan arweiniad yr awdurdod datblygu, wrthi ar hyn o bryd yn ymwneud â nifer fawr o randdeiliaid o fewn Cymru ac y tu allan iddi. Caiff ffrwyth yr ymgynghori hwn ei ymgorffori yn y strategaeth.

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (Grantiau ar gyfer Prosiectau Ymwelwyr)**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad a yw Llywodraeth y Cynulliad wedi cynghori Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru i ddarbwyllo darpar ymgeiswyr am grantiau cymorth ar gyfer prosiectau ymwelwyr i beidio â cheisio am grantiau o'r fath? (WAQ34104)

**Andrew Davies:** Nid yw Llywodraeth y Cynulliad wedi rhoi cyngor o'r fath ynglŷn â grantiau ar gyfer prosiectau ymwelwyr i WEFO.

**Costau Rhedeg a Gweinyddu Byrddau'r Cyrff Cyhoeddus a Noddir gan y Cynulliad**

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan beth oedd costau rhedeg a gweinyddu byrddau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd yn ei bortffolio, ar gyfer 2002-03 a 2003-04? (WAQ34109) [W]

**Andrew Davies:** Mae'r wybodaeth y gwnaethoch gais amdani i'w gweld yn y tabl isod:

| | 2002-03 (£000) | 2003-04 (£000) |
|---|---|---|
| Awdurdod Datblygu Cymru | 220 | 200 |
| Bwrdd Croeso Cymru | 180 | 180 |

**Cyfyngiadau ar Bwysau Traffig ar Bont Llandeilo**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyfyngiadau ar bwysau traffig ar bont Llandeilo? (WAQ34142)

**Andrew Davies:** Nid oes gan asiant Llywodraeth Cynulliad Cymru, asiantaeth gefnffyrdd gorllewin Cymru, unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i roi cyfyngiad pwysau ar y bont uchod.

**Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru**

**Lisa Francis:** Pa ffactorau sy'n sail i benderfyniad Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru: (i) i gynghori Cymdeithas Ddillad a Thecstilau Cymru i beidio â phrynu peirianwaith ail law oddi wrth y cyn weithgynhyrchwyr dillad K Fogg ym Machynlleth, a (ii) i fynnu bod yr offer yn cael ei brydlesu? (WAQ34155)

**Andrew Davies:** Ni chynghorodd Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru Gymdeithas Ddillad a Thecstilau Cymru i beidio â phrynu peiriannau ail law oddi wrth K Fogg, y gweithgynhyrchwyr dillad ym Machynlleth. Penderfyniad masnachol pur gan y gymdeithas oedd hwn. Yr oedd prydlesu yn un o sawl opsiwn yr awgrymodd WEFO y dylai'r ymgeisydd eu hystyried i sicrhau bod y prosiect yn ddichonadwy. Fodd bynnag, ni fynnodd WEFO y dylai offer o'r fath gael ei brydlesu.

**Bonws Gwerth £65 Miliwn (Sir y Fflint)**

**Carl Sargeant:** A wnaiff y Gweinidog nodi a fydd unrhyw ran o'r bonws gwerth £65 miliwn a gyhoeddwyd ar 1 Ebrill yn cael ei neilltuo i sir y Fflint sy'n ardal Amcan 3? (WAQ34162)

**Andrew Davies:** O'r gronfa berfformiad £65.4 miliwn ar gyfer rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru, mae swm o £4.1 miliwn ar gyfer y rhaglen Amcan 3. Mae pwyllgor monitro rhaglen Amcan 3 wedi cytuno y dylid dyrannu arian ychwanegol i flaenoriaeth 2, mesur 1, sef cyfle cyfartal i bawb a hyrwyddo cynhwysiant cymdeithasol. Mae'r arian ar gael i geisiadau o bob rhan o ardal rhaglen Amcan 3, sy'n cynnwys dwyrain Cymru gyfan—pob ardal y tu allan i Amcan 1.

### Y Cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn etholaeth Dwyrain Abertawe? (WAQ34174)

**Andrew Davies:** Yr ydym wedi dyrannu cyllid i ddau gynllun Llwybrau Diogel i'r Ysgol yn etholaeth Dwyrain Abertawe. Derbyniodd y cynllun yn ysgol gynradd Talycopa £95,000 yn 2000-01 a derbyniodd y cynllun yn ysgol fabanod a iau Brynhyfryd £85,000 yn 2003-04 ac £85,000 arall ar gyfer 2004-05.

### Manteision Rhaglen y Fargen Newydd

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch manteision rhaglen y Fargen Newydd? (WAQ34175) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes***

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae'r Fargen Newydd yn cael ei rhoi ar waith yng Nghymru gan Ganolfan Byd Gwaith ac, fel y cyfryw, nid cyfrifoldeb Llywodraeth Cynulliad Cymru mohoni. Serch hynny, mae'n chwarae rhan bwysig iawn o ran helpu pobl ddi-waith a phobl sy'n anweithgar yn economaidd i ganfod swyddi, ac mae'n cyfrannu'n sylweddol tuag at amcanion polisi cymdeithasol ac economaidd Llywodraeth y Cynulliad, yn arbennig y pedair blaenoriaeth allweddol a nodwyd yn 'Cymru: Gwlad Well'. Mae'n werth nodi ei llwyddiant yng Nghymru. Mae'r ffigurau diweddaraf, ym mis Rhagfyr 2003, ar gyfer tair prif raglen y Fargen Newydd yng Nghymru yn dangos bod 32,900 o bobl ifanc rhwng 18 a 24 oed wedi cael gwaith drwy'r Fargen Newydd i bobl ifanc; bod 9,600 o bobl dros 25 wedi cael gwaith drwy'r Fargen Newydd i rai dros 25; a bod 17,700 o rieni unigol wedi canfod gwaith drwy'r Fargen Newydd i rieni unigol. Yn ychwanegol at hynny, mae 4,900 o bobl ag anabledd wedi cael help i ganfod gwaith drwy'r Fargen Newydd i bobl anabl.

### Damweiniau a Fu ar y A40 rhwng Aberhonddu a'r Fenni

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar nifer y damweiniau a fu ar y rhan o'r A40 rhwng Aberhonddu a'r Fenni er 1999 gan nodi'r lleoliadau yn fras ym mhob achos? (WAQ34180)

**Andrew Davies:** Yr unig ddamweiniau y mae cofnodion ar gael amdanynt yw damweiniau lle'r achoswyd anafiadau, a rhennir y rheini yn anafiadau angheuol, anafiadau difrifol a mân anafiadau. Dros y cyfnod pum mlynedd dan sylw, bu tua 140 o ddamweiniau o'r A40 yng nghanol y Fenni hyd at ben dwyreiniol ffordd osgoi ddeheuol Aberhonddu. Dim ond ffigur bras y gellir ei roi, yn bennaf gan fod y nifer fwyaf o ddamweiniau yn digwydd yng nghanol y Fenni, a gallai symud y man terfyn o fewn y dref gynnwys neu eithrio nifer sylweddol o ddamweiniau.

O'r damweiniau ar hyd y darn hwn o ffordd, yr oedd pump yn angheuol, 33 yn ddifrifol ac achosodd 102 ohonynt fân anafiadau. Digwyddodd 80 y cant ohonynt yn ystod golau dydd. Digwyddodd tua 65 y cant ohonynt pan oedd wyneb y ffordd yn sych. Mae nifer y mân ddamweiniau yn y Fenni a Chrucywel yn uchel, ond nid yw hyn yn anarferol mewn ardaloedd adeiledig.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Cynnydd Canlyniadol yn Fformiwla Barnett (Cyllidebau Ysgolion)

**Janet Ryder:** Beth fydd y cynnydd canlyniadol yn fformiwla Barnett yn sgîl cyhoeddiad Canghellor y Trysorlys bod £55,000 ar gael i bob ysgol yn Lloegr, ac a fydd unrhyw gynnydd yn mynd yn syth i gyllidebau ysgolion? (WAQ34154)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Dim. Parhad o'r grant safonau ac arian cyfalaf presennol yw'r grant ar gyfer ysgolion yn Lloegr yn 2005-06 y cyfeiriwyd ato gan y Canghellor. Nid oes cynnydd canlyniadol i floc y Cynulliad. Bydd bloc y Cynulliad yn cynnwys £99

miliwn ychwanegol yn 2006-07 a £219 miliwn ychwanegol yn 2007-08 o ganlyniad i gyhoeddiadau yn natganiad y Canghellor. Y Cynulliad ei hun fydd yn penderfynu sut y caiff yr arian hwnnw ei ddyrannu.

### Treialu Cynlluniau Brecwast am Ddim mewn Ysgolion yn Nwyrain Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch treialu cynlluniau brecwast am ddim mewn ysgolion yn Nwyrain Abertawe? (WAQ34173)

**Jane Davidson:** Rhestrwyd naw awdurdod addysg lleol i dreialu rhan gyntaf y peilot a fydd yn dechrau ym mis Medi 2004. Mae tri ohonynt yn y Gorllewin, tri yn y De a thri yn y Gogledd. Bydd hyn yn rhoi inni ddosbarthiad daearyddol da a bydd yn golygu o bosibl y bydd dros 11,000 o blant mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf yn gymwys i gymryd rhan yn y fenter hon o fis Medi 2004.

Er nad yw Abertawe ymysg y naw awdurdod addysg lleol sy'n cymryd rhan yn y cam cyntaf, bydd ysgolion peilot mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf ym mhob un o'r awdurdodau addysg lleol sy'n weddill yn cael cyfle i gymryd rhan yn yr ail gam o fis Medi 2005. Bydd swyddogion yn parhau i weithio'n agos gyda'r holl awdurdodau lleol, gan gynnwys Abertawe, drwy holl gamau datblygu a gweithredu'r peilot.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Lleihau Fflyd Bysgota Prydain

**Nick Bourne:** A yw'r Gweinidog wedi gwneud unrhyw sylwadau ar gynigion San Steffan i leihau fflyd bysgota Prydain? (WAQ34105)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Cyfrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn llawn at y gwaith a arweiniodd at gyhoeddi 'Net Benefits: A Sustainable and Profitable Future for UK Fishing' gan uned strategaeth y Prif Weinidog.

Nid sôn am leihau fflyd bysgota'r DU yn unig a wna'r adroddiad. Yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar gamau i gynnal y farn sylfaenol y gallai diwydiant pysgota'r DU fod yn broffidiol yn y tymor hir. Mae'r adroddiad yn cynnig sail gadarn ar gyfer strategaeth bysgodfeydd i'r DU yn y tymor canolig i'r tymor hir ac yn darparu'r cyd-destun er mwyn nodi cyfleoedd i wneud pob sector o ddiwydiant pysgota Cymru yn gynaliadwy. Mae hefyd yn adeiladu ar y gwaith a wnaethpwyd eisoes gan Lywodraeth y Cynulliad i gynhyrchu strategaeth i Gymru ar gyfer y sectorau masnachol ac adloniadol.

Datblygu dull partneriaeth er mwyn gweithio gyda diwydiant pysgota Cymru fydd yn allweddol er mwyn llwyddo i gyflwyno polisïau dichonadwy yng Nghymru. Ar y cyd â'r buddiannau hyn ac adrannau pysgodfeydd eraill y DU, bwriadwn ystyried atebion ymarferol a realistig i'r cynigion a'r argymhellion yn yr adroddiad.

### Oedi cyn Cyhoeddi Nodyn Cyngor Technegol 15

**Kirsty Williams:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch yr oedi cyn cyhoeddi nodyn cyngor technegol 15, a oedd yn wreiddiol yn mynd i gael ei gyhoeddi yn gynharach eleni? (WAQ34156)

**Carwyn Jones:** Gall llifogydd olygu canlyniadau difrifol. Mae'n hanfodol, felly, ein bod yn cael cynnwys nodyn cyngor technegol 15 yn iawn, gan gydnabod y risg sydd ynghlwm wrth ddatblygu mewn ardaloedd lle gellid cael llifogydd, ond gan gydnabod hefyd y bydd yn rhaid wrth rywfaint o ddatblygu economaidd yn y mannau hynny. Mae'r broses gynhwysol yr ydym wedi ei mabwysiadu wrth ddatblygu'r fersiwn derfynol wedi golygu trafodaethau pellach, o reidrwydd, gydag amrywiaeth eang o randdeiliaid allweddol, yn sgîl ymgynghori ynghylch y nodyn drafft. Mae'r trafodaethau hyn bron â chael eu cwblhau a dylem allu cyhoeddi'r nodyn cyn toriad yr haf.

### Gwaredu Stoc Marw

**Helen Mary Jones:** Oherwydd nad oes cynllun stoc marw ar waith, pa opsiynau cyfreithlon eraill y mae'r Gweinidog yn eu hystyried, ar y cyd ag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, er mwyn gwaredu stoc marw? (WAQ34167)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dal i weithio'n agos gyda DEFRA a bwrdd cwmni'r cynllun gwaredu stoc marw cenedlaethol i lansio cynllun cenedlaethol yn yr hydref. Nid oes gofyniad cyfreithiol i ddarparu cynllun stoc marw a gall ffermwyr ddefnyddio unrhyw ddulliau gwaredu sydd wedi'u nodi yn Rheoliadau Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (Cymru) 2003.

### Oedi cyn Rhoi Cynllun Stoc Marw ar Waith

**Helen Mary Jones:** Pa eglurhad y mae'r Gweinidog wedi'i roi i ffermwyr ynghylch yr oedi cyn rhoi cynllun stoc marw ar waith, ym mha gyhoeddiadau y mae'r eglurhad hwnnw i'w weld, a pha ganllawiau a roddir i ffermwyr yn y cyhoeddiadau hyn o ran ffyrdd ymarferol o waredu stoc marw? (WAQ34168)

**Carwyn Jones:** Rhoddwyd cyhoeddusrwydd i'r oedi yng nghyswllt y cynllun cenedlaethol ar gyfer stoc marw yn y wasg ffermio ac mewn papurau newydd cenedlaethol yn sgîl rhyddhau datganiad i'r wasg ar y cyd â DEFRA a'r gweinyddiaethau datganoledig. Mae'r datganiad i'r wasg a chopi o'r canllawiau i ffermwyr ar ffurf cwestiwn ac ateb ar gael ar wefan Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad. Mae'r rhanddeiliaid ym maes ffermio wedi cael eu hysbysu am hynt y cynllun a gofynnwyd iddynt ledaenu'r wybodaeth i'w haelodau.

Ni roddwyd canllawiau newydd i ffermwyr ynglŷn â gwaredu stoc marw am fod disgwyl i ffermwyr gydymffurfio â rheoliad yr UE, sydd wedi gwahardd claddu anifeiliaid ar ffermydd er mis Mai 2003.

### Achosion o Glwy'r Traed a'r Genau yn y Dyfodol (Difa Cyfagos)

**Glyn Davies:** Pa bryd y byddai cynllun difa ar ffermydd cyfagos yn cael ei gyflwyno mewn achos o glwy'r traed a'r genau yn y dyfodol? (WAQ34177)

**Carwyn Jones:** Wrth benderfynu pa un i ddifa anifeiliaid ar ffermydd cyfagos ai peidio, a phryd i wneud hynny, byddai'n rhaid ystyried cyngor milfeddygol oddi wrth y Gwasanaeth Milfeddygol Gwladol. Cyfrifoldeb yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig yw'r mater ar hyn o bryd.

### Trosglwyddo'r Pwerau Iechyd Anifeiliaid sy'n Weddill

**Glyn Davies:** Ymhellach i WAQ34044, a yw DEFRA neu Lywodraeth y Cynulliad, yn dilyn trosglwyddo'r pwerau iechyd anifeiliaid sy'n weddill, yn ddarostyngedig i unrhyw awdurdod arall cyn gwneud penderfyniad i gyflwyno brechu? (WAQ34178)

**Carwyn Jones:** Nac ydyw.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Aelodau Byrddau'r CCNC sydd o dan 30 Oed

**Nick Bourne:** Faint o aelodau byrddau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd o dan 30 oed? (WAQ34085)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae un aelod ar fyrddau'r CCNC gweithredol o dan 30 oed. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag at sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg y bobl a benodir i swyddi cyhoeddus fel bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Sefydlwyd cynllun gweithredu, yn dwyn y teitl 'Mainstreaming Equality in Public Appointments', er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus, cynyddu capasiti a gwerthuso'r effaith ar grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys pobl iau.

### Aelodau Byrddau'r CCNC sydd o Gefndir Lleiafrif Ethnig

**Nick Bourne:** Faint o aelodau byrddau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad sydd o gefndir lleiafrif ethnig? (WAQ34086)

**Sue Essex:** Mae pum aelod ar fyrddau'r CCNC gweithredol o gefndir lleiafrif ethnig. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag at sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg y bobl a benodir i swyddi cyhoeddus fel bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Sefydlwyd cynllun gweithredu, yn dwyn y teitl 'Mainstreaming Equality in Public Appointments', er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus, cynyddu capasiti a gwerthuso'r effaith ar grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys lleiafrifoedd ethnig.

### Nifer y Menywod sy'n Aelodau o Fyrddau'r CCNC

**Nick Bourne:** Faint o bobl sy'n gwasanaethu ar fyrddau'r cyrff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, a faint ohonynt sy'n fenywod? (WAQ34087)

**Sue Essex:** Mae cyfanswm o 189 o bobl yn gwasanaethu ar hyn o bryd ar fyrddau'r CCNC gweithredol. O'r rhain, mae 64 yn fenywod. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio tuag at sicrhau mwy o amrywiaeth ymysg y bobl a benodir i swyddi cyhoeddus fel bod cyrff cyhoeddus yn adlewyrchu'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu yn well. Sefydlwyd cynllun gweithredu, yn dwyn y teitl 'Mainstreaming Equality in Public Appointments', er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o benodiadau cyhoeddus, cynyddu capasiti a gwerthuso'r effaith ar grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, gan gynnwys menywod.

### Ad-dalu £15 miliwn gan LG Electronics

**Jenny Randerson:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu adrodd i'r Cynulliad ynghylch dyrannu rhwng cyllidebau y £15 miliwn a ad-dalwyd i'r Cynulliad gan LG Electronics? (WAQ34186)

**Sue Essex:** Yr oedd y gwariant gwreiddiol gan y Swyddfa Gymreig yn ymwneud â datblygu economaidd, felly bydd yr ad-daliad hwn yn cael ei adrodd fel rhan o'r prif grŵp gwariant datblygu economaidd a thrafnidiaeth.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Taliadau am Dderbyn Gofal Cymdeithasol Personol

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o unigolion ers Mai 1999 y codwyd tâl arnynt am dderbyn gofal cymdeithasol personol? (WAQ34091)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Nid yw'r Cynulliad yn casglu'r wybodaeth a ofynnwyd amdani.

**Codi Tâl heb Angen am Ofal Cymdeithasol Personol**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o gyflwyniadau y mae'r Gweinidog wedi'u derbyn ynghylch unigolion y codwyd tâl arnynt, heb fod angen, am ofal cymdeithasol personol? (WAQ34092)

**Jane Hutt:** Ers imi gael fy ailbenodi ym mis Mai 2003, yr wyf wedi rhestru 34 eitem o ohebiaeth yn crybwyll pryderon ynglŷn â chodi tâl anghywir ar unigolion yr aseswyd bod angen gofal cymdeithasol personol arnynt. Ers cyhoeddi adroddiad gan Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ym mis Chwefror 2003, yr wyf hefyd wedi derbyn dros 350 o ymholiadau sy'n gofyn pa un a ddylai gofal gael ei ariannu o dan drefniadau gofal iechyd parhaus y GIG.

**Sefydlu Uned Cardiac yn Ysbyty Bronglais, Aberystwyth**

**Elin Jones:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu ei hamserlen ar gyfer sefydlu uned cardiac yn ysbyty Bronglais, Aberystwyth? (WAQ34093) [W]

**Jane Hutt:** Mae Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a Chanolbarth Cymru wedi cyflwyno achos busnes i Lywodraeth y Cynulliad ar gyfer uned gofal coronaidd yn Ysbyty Bronglais. Rhaid i'r achos busnes hwn fynd drwy broses arferol y llawlyfr buddsoddi cyfalaf.

Yr opsiwn y mae'r ymddiriedolaeth yn ei ffafrio yw creu uned gofal coronaidd pwrpasol, adnewyddu ward Iorwerth ac adleoli gwasanaethau cymorth a swyddfeydd i estyniad newydd ar safle Bronglais. Mae'n anodd iawn recriwtio cardiolegydd llawn-amser, ac mae'r ymddiriedolaeth yn cydweithio'n agos â rhwydwaith y galon canolbarth a de-orllewin Cymru i weld pa gymorth y gallai Ymddiriedolaeth GIG Abertawe ei gynnig.

Nes y bydd y materion sydd wedi'u codi hyd yn hyn ynghylch yr achos busnes wedi'u datrys, a nes bod cymeradwyaeth ffurfiol wedi'i rhoi, mae'n anodd imi roi amserlen ichi. Anfonwyd sylwadau ffurfiol ar yr achos busnes amlinellol diwygiedig at yr ymddiriedolaeth ar 6 Tachwedd 2003. Yr ydym yn disgwyl derbyn achos busnes amlinellol wedi'i ddiwygio ymhellach oddi wrth yr ymddiriedolaeth cyn bo hir.

**Clefyd y Galon yng Nghymru**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch a yw'r honiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Iechyd na ddylai neb o dan 65 farw o afiechyd y galon erbyn 2013, yn gymwys i Gymru? (WAQ34115)

**Jane Hutt:** Rhagamcaniad oedd y datganiad, nid targed, wedi'i seilio ar ragamcanu'r gostyngiad dros y blynyddoedd diwethaf. Mae'r gyfradd marwolaethau yng Nghymru hefyd wedi gostwng.

Am resymau hanesyddol, mae'r ffigurau marwolaethau yng Nghymru yn sylweddol uwch na'r ffigurau yn Lloegr. Yng Nghymru, yr wyf wedi gosod targed i ostwng nifer y marwolaethau oherwydd clefyd coronaidd y galon yn y dyfodol, ar sail cyngor arbenigol. Byddaf wrth fy modd os rhagorir ar y rhain. Fodd bynnag, er i'r cynnydd o ran mynd i'r afael â chlefyd coronaidd y galon yng Nghymru fod yn llwyddiant hyd yma, bydd yn anodd cynnal y gostyngiad a gafwyd yn ddiweddar yn y gyfradd i'r dyfodol, oherwydd materion yn ymwneud â gordewdra a'r ffordd eisteddog o fyw a welir ymysg poblogaeth Cymru.

**Comisynydd Pobl Hŷn i Gymru**

**Lisa Francis:** Ai polisi'r Gweinidog yw y dylai comisiynydd pobl hŷn Cymru fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ34118)

**Jane Hutt:** Mae adroddiad y grŵp cynghori, a gomisiynais i ystyried statws, pwerau a rôl comisiynydd ar gyfer pobl hŷn, yn cael ei gyhoeddi at ddibenion ymgynghori â'r cyhoedd ar 11 Mai. Yng ngoleuni'r

ymgynghoriad hwnnw, bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn penderfynu sut y mae'n dymuno symud ymlaen.

### Lleihau Nifer y Lleoedd Hyfforddiant ar gyfer Ffisiotherapi a Therapi Galwedigaethol

**Rhodri Glyn Thomas:** A yw'r Gweinidog yn ystyried unrhyw argymhellion i leihau nifer y lleoedd hyfforddiant ar gyfer ffisiotherapi a therapi galwedigaethol? (WAQ34122)

**Jane Hutt:** Mae'r gyllideb ganolog ar gyfer addysg a hyfforddiant i staff anfeddygol yn 2004-05 wedi cynyddu 7.6 y cant o'i chymharu â chyllideb 2003-04. Er 1999, mae'r buddsoddiad canolog blynyddol mewn addysg a hyfforddiant i bob grŵp staff wedi cynyddu 73 y cant—mae'r ffigur hwn yn cynnwys y codiadau blynyddol gogyfer chwyddiant. Er 1999, mae'r nifer a dderbynnir ar gyfer hyfforddiant ffisiotherapi wedi cynyddu 60 y cant a'r nifer a dderbynnir ar gyfer hyfforddiant therapi galwedigaethol wedi cynyddu 73 y cant.

Yn gyffredinol, mae cyfanswm y niferoedd sy'n hyfforddi ar gyfer therapi galwedigaethol wedi cynyddu o 149 yn 1999 i 261 yn 2003. Cyfanswm y niferoedd o dan hyfforddiant o fis Medi 2004 fydd 272. Mae cyfanswm y niferoedd sy'n hyfforddi ar gyfer ffisiotherapi hefyd wedi cynyddu o 210 yn 1999 i 344 yn 2003. O fis Medi 2004, cyfanswm y niferoedd fydd 371.

Fel ymrwymiad pellach i ehangu mynediad, mae Coleg Meddygaeth Prifysgol Caerdydd, Prifysgol Cymru Bangor ac Athrofa Addysg Uwch Gogledd-ddwyrain Cymru wedi gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu cwrs therapi galwedigaethol carlam dwy flynedd. Bu'r cwrs hwn ar gael er mis Ionawr 2004 yng Nghaerdydd a Bangor. Mae cwrs rhan-amser wedi cael ei ddatblygu hefyd a bydd yn dechrau yn NEWI o fis Medi 2004. Bydd y cwrs hwn yn cael ei gynnal ochr yn ochr â'r rhaglen therapi galwedigaethol ran-amser yng Nghaerdydd. Mae trafodaethau ar y gweill ynghylch datblygu cynlluniau cyffelyb ar gyfer hyfforddiant ffisiotherapi. Mae'r datblygu hyn a'r buddsoddi sy'n dal i ddigwydd yn adlewyrchu fy ymrwymiad parhaus i ddatblygu gweithlu'r GIG yng Nghymru.

### Gweithgor Ffioedd Gofal Cartref i'r Anabl

**Jenny Randerson:** A yw gwaith y gweithgor a ailffurfiwyd ar ffioedd gofal cartref i'r anabl eisoes wedi dechrau? (WAQ34157)

**Jenny Randerson:** Pryd mae disgwyl y bydd y gweithgor a ailffurfiwyd ar ffioedd gofal cartref i'r anabl yn adrodd yn ôl? (WAQ34158)

**Jenny Randerson:** Pryd mae disgwyl y bydd yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y gweithgor a ailffurfiwyd ar ffioedd gofal cartref i'r anabl yn dechrau a gorffen? (WAQ34159)

**Jane Hutt:** Fel a gynlluniwyd, cyfarfu'r grŵp gorchwyl a gorffen ar ofal cartref am ddim i bobl anabl am y tro cyntaf ar 29 Mawrth 2004. Yr wyf eisoes wedi datgan y bydd y grŵp yn cwrdd dair gwaith eto dros y chwe mis nesaf ac, unwaith y byddaf wedi ystyried ei gyngor, bwriadaf ymgynghori ynghylch fy nghynigion.

### Cyflwr Ariannol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru

**Sandy Mewies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch cyflwr ariannol Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Ddwyrain Cymru? (WAQ34164)

**Jane Hutt:** Mae ymddiriedolaeth Gogledd-ddwyrain Cymru yn adrodd, yn ei datganiad monitro ariannol mis 11 (Chwefror 2004), y bydd yn cyrraedd y targed o fantoli ei sefyllfa ariannol erbyn diwedd blwyddyn 2003-04. Mae'r ymddiriedolaeth yn dweud hefyd nad oes ganddi unrhyw broblemau ariannol sylweddol o ran y blynyddoedd i ddod.

**Baich Gweinyddol ar Feddygon Locwm sydd am Weithio yng Nghymru**

**Sandy Mewies:** Pa gamau sy'n cael eu cymryd i ysgafnhau'r baich gweinyddol ar feddygon, yn enwedig meddygon locwm, sydd am weithio yng Nghymru? (WAQ34165)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw anawsterau gweinyddol sy'n wynebu meddygon sy'n dymuno ymarfer ym maes gofal sylfaenol neu eilaidd yng Nghymru ar hyn o bryd, ond byddwn yn barod i roi sylw i unrhyw feysydd sy'n peri problemau ac a barodd ichi ofyn eich cwestiwn.

**Datblygu Gwasanaethau Eiriolaeth yng Nghymru**

**Val Lloyd:** Pa gynlluniau sydd yn yr arfaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth o wasanaethau eiriolaeth yng Nghymru? (WAQ34172)

**Jane Hutt:** Ein nod yn y tymor hir yw sicrhau bod plant a phobl ifanc ac oedolion yn gallu manteisio ar wasanaethau eiriolaeth mewn sefydliadau iechyd, gofal cymdeithasol ac addysg. Bydd hyn yn cymryd amser ac yr ydym am ganolbwyntio yn gyntaf ar y grwpiau sy'n fwyaf agored i niwed: plant mewn angen, gan gynnwys y rheini sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol neu sy'n byw oddi cartref, plant mewn ysbytai neu sefydliadau eraill, ac oedolion bregus y mae angen cymorth arnynt.

Mae pob awdurdod lleol yng Nghymru yn comisiynu gwasanaethau eiriolaeth ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae Deddf Mabwysiadu a Phlant 2002 yn cyflwyno hawl i bob plentyn mewn angen allu defnyddio eiriolwr wrth wneud cwyn am wasanaethau cymdeithasol. Bydd rheoliadau i gyflwyno'r trefniadau newydd yn cael eu dwyn gerbron y Cynulliad ar 26 Mai, a bwriedir i'r trefniadau ddod i rym ar 1 Mehefin 2004.

Ym mis Mehefin 2003, sefydlwyd gwasanaeth eiriolaeth annibynnol gogyfer â chwynion i roi help a chefnogaeth i bobl sy'n dymuno gwneud cwyn am y GIG. Cynghorau iechyd cymuned fydd yn gyfrifol am y gwasanaeth, ac mae'n cynnig amryw o fathau gwahanol o gymorth, gan gynnwys rhoi cyngor ynglŷn â phryderon neu broblemau, ysgrifennu llythyrau ar ran yr achwynydd, neu ddarparu cymorth iddynt mewn cyfarfodydd.

Fel ran o ymateb y Cynulliad i adroddiad Comisiynydd Plant Cymru, 'Datgan Pryderon', byddwn yn sefydlu uned eiriolaeth i blant a phobl ifanc yn y Cynulliad yn fuan i hyrwyddo'r ystod o wasanaethau eiriolaeth sydd ar gael i blant a phobl ifanc ar draws meysydd iechyd, addysg a gofal cymdeithasol.

Mae Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru wedi datblygu cynnig yn ddiweddar i sefydlu corff ymbarél i roi cymorth i ddarparwyr eiriolaeth annibynnol yng Nghymru. Mae'n bwriadu ymgynghori ag amryw o fuddiannau ynglŷn â'r cynnig hwn ym mis Mehefin. Byddwn yn ystyried i ba raddau y byddai'n bodloni amcanion eiriolaeth y Cynulliad yn y tymor hir ac i ba raddau y mae'n gyson â'r uned eiriolaeth sy'n cael ei sefydlu yn y Cynulliad.

**Trin Poen Cronig**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog sylw ar yr hyn y mae ei hadran yn ei wneud o ran trin poen cronig? (WAQ34179)

**Jane Hutt:** Mae trin poen cronig yn fater ar gyfer sbectrwm eang ac amrywiol o ofal iechyd, ac mae llu o faterion a gwasanaethau y mae angen eu hystyried. Er mwyn datblygu gwasanaethau rheoli poen yn eu crynswth ac yn y tymor hwy, yr wyf wedi ffurfio grŵp datblygu gwasanaethau rheoli poen i Gymru gyfan i ystyried y ffordd orau o ddatblygu gwasanaeth mwy integredig ac effeithiol. Bydd gwaith y grŵp yn helpu i ddatblygu fframwaith gwasanaeth er mwyn sicrhau y caiff pob gwasanaeth yn y dyfodol ei ddatblygu a'i ddarparu ar sail fwy hygyrch a theg ar draws Cymru.

Yn ogystal, bydd y polisi a’r cynllun gweithredu i Gymru gyfan sy’n cael eu datblygu ar hyn o bryd ar arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol, sef y cyntaf o’u bath yn y DU, yn helpu i wella iechyd a lles pobl y mae risg iddynt ddatblygu arthritis a chyflyrau cyhyrysgerbydol eraill, yn ogystal ag iechyd a lles y rhai sy’n byw gyda’r cyflyrau hyn eisoes, ar draws Cymru.

**Polisi Chwarae’r Cynulliad**

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adroddiad diweddaraf ynghylch polisi chwarae’r Cynulliad? (WAQ34182)

**Jane Hutt:** Mae adroddiad grŵp gweithredu’r polisi chwarae a sefydlwyd yn 2003 newydd ddod i law. Byddaf yn cyhoeddi’r camau nesaf yn fuan yng sgîl yr adroddiad hwnnw.

**Annog Plant i Fyw’n Iach ac yn Weithgar**

**Val Lloyd:** Pa ystyriaeth sydd wedi’i rhoi i ddatblygu mesurau polisi trawsbynciol gyda’r portffolio dros ddiwylliant, y Gymraeg a chwaraeon a’r portffolio dros addysg a dysgu gydol oes er mwyn annog plant i fyw’n iach ac yn weithgar? (WAQ34184)

**Jane Hutt:** Cynhaliwyd tair cynhadledd lwyddiannus ym mis Mawrth 2004 i edrych ar faterion yn ymwneud â maeth a gweithgarwch corfforol ar gyfer plant a phobl ifanc. Anerchodd Jane Davidson, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y gynhadledd gyntaf, agorwyd yr ail gynhadledd gan Alun Pugh, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon, ac agorais innau’r drydedd. Trafododd dros 300 o gynadleddwyr ffyrdd o wella ffitrwydd plant a phobl ifanc a sut i’w hannog i fwyta’n iach, a chafodd eu cynigion eu trafod gan y Cabinet ar 29 Mawrth.

Yn y drydedd gynhadledd, cyhoeddais fod grŵp gorchwyl bwyd a ffitrwydd yn cael ei sefydlu ar gyfer plant a phobl ifanc. Bydd y grŵp yn cynnwys pobl amlwg o feysydd iechyd, addysg a chwaraeon a hamdden yng Nghymru. Byddant yn ystyried cynigion gweithredu’r cynadleddau diweddar, ac yn rhoi cyngor ynglŷn â chyd-drefnu’r dulliau gweithredu ymhellach. Bydd hyn oll yn cael ei drafod wedyn gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon a minnau.

Bydd y trafodaethau hyn yn datblygu’r mesurau polisi trawsbynciol sydd eisoes yn rhan o’n portffolios, er enghraifft cydweithredu i ddarparu peiriannau oeri dŵr i ysgolion mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, i sicrhau bod y brecwastau ysgol am ddim yn iach, ac i ddatblygu perthynas waith gref rhwng cydlynwyr ysgolion iach lleol a’r cydlynwyr addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ym mhob awdurdod.

**Nifer y Cleifion Gafodd Ail Gynnig o Driniaeth**

**Jonathan Morgan:** Yn dilyn ymrwymiad y Gweinidog i roi ail gynnig o driniaeth i bob claf a fu’n aros dros 18 mis erbyn diwedd mis Ebrill 2004, a wnaiff y Gweinidog ddatganiad yn nodi faint o’r cleifion hyn sydd wedi derbyn cynnig o’r fath? (WAQ34185)

**Jane Hutt:** Yr wyf wedi dweud y bydd yr holl gleifion sydd wedi aros dros 18 mis wedi derbyn ail gynnig erbyn i ffigurau amseroedd aros diwedd mis Ebrill gael eu cyhoeddi ddiwedd mis Mai, er na fyddant efallai wedi cael eu triniaeth. Byddaf yn gallu rhoi gwybodaeth am hynt y cynllun ail gynnig ddiwedd mis Mai.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Rhaglen Ailddyfeisio Rhwydwaith Trefol y Post Brenhinol

**Leanne Wood:** Pa effaith y mae rhaglen ailddyfeisio rhwydwaith trefol y Post Brenhinol wedi'i chael ar weithredu cronfa datblygu swyddfeydd post Llywodraeth Cynulliad Cymru? (WAQ34061)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Yr wyf wedi cael cadarnhad ysgrifenedig gan Swyddfa'r Post Cyf ei bod yn barod i warantu na fydd yn mynd ati i gau swyddfeydd post sy'n derbyn grantiau hyd at 31 Mawrth 2006. Yr wyf wedi ysgrifennu at Swyddfa'r Post Cyf yn gofyn am i'r warant hon gael ei hymestyn.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Cyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio ar 31 Mawrth 2004, cyhoeddais fy mod yn bwriadu parhau â'r gronfa ac ystyried ceisiadau yn y trydydd a'r pedwerydd cylch.

### Ariannu Dewisiadau Bywyd gan y Cynulliad

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ariannu'r prosiect Dewisiadau Bywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru? (WAQ34129)

**Edwina Hart:** Daeth yr arian ar gyfer prosiect Dewisiadau Bywyd Cynhadledd Sefydlog Mudiadau Gwirfoddol drwy gronfa Diana i ben ym mis Mawrth 2004. Nid wyf yn ymwybodol o unrhyw gais a wnaed i'r Cynulliad am arian pellach. Mae Cynhadledd Sefydlog Mudiadau Gwirfoddol, fodd bynnag, wedi cyflwyno cais yng nghyswllt ei phrosiect 'Cydraddoldeb ar Waith yn y Gymuned' fel rhan o'r cylch ceisiadau diweddar i gymdeithasau byw. Cafodd y cais ei ystyried yn erbyn y meini prawf cymhwyso, ond ni sgoriodd yn ddigon uchel i ddenu arian.

Trefnaf fod copi o'r canllawiau sydd newydd eu cyhoeddi am grantiau cyfiawnder cymdeithasol ac adfywio yn cael ei anfon at y mudiad ynghyd â manylion cyswllt Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru.

## Cwestiynau i Bwyllgor y Tŷ

### Contract Merlin

**Alun Cairns:** A wnaiff Pwyllgor y Tŷ ddatganiad ar gontract Merlin? (WAQ34119)

**Y Dirprwy Lywydd (John Marek):** Nid yw hwn yn fater i Bwyllgor y Tŷ. Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am hyn, ac mae wedi cytuno i ysgrifennu atoch.

### Cymalau Cosbi yng Nghontract Merlin

**Alun Cairns:** Pa gymalau cosbi sydd yng nghontract Merlin os oes oedi yn y gwasanaeth neu os yw'n torri i lawr? (WAQ34120)

**John Marek:** Nid yw hwn yn fater i Bwyllgor y Tŷ. Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am hyn, ac mae wedi cytuno i ysgrifennu atoch.

### Cyfanswm Cost Contract Merlin

**Alun Cairns:** Beth yw cyfanswm cost contract Merlin? (WAQ34121)

**John Marek:** Nid yw hwn yn fater i Bwyllgor y Tŷ. Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth sy'n gyfrifol am hyn, ac mae wedi cytuno i ysgrifennu atoch.

**Hyrwyddo Rôl a Gwaith y Cynulliad mewn Ysgolion**

**Val Lloyd:** A wnaiff cynrychiolydd Pwyllgor y Tŷ amlinellu sut y mae rôl a gwaith y Cynulliad yn cael eu hyrwyddo mewn ysgolion? (WAQ34183)

**John Marek:** Mae'r Gwasanaeth Addysg a Gwybodaeth i'r Cyhoedd, sydd wedi'i leoli yn adeilad y Pierhead, yn darparu gwasanaeth i ysgolion sy'n ceisio hybu ymwybyddiaeth a gwybodaeth pobl ifanc am rôl a gwaith y Cynulliad. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys rhaglen addysg berthnasol i'r cwricwlwm sy'n gwahodd ysgolion i ymweld ag adeilad y Pierhead i ddysgu am y Cynulliad a'r broses ddemocrataidd. Mae ymweliad ysgol yn gyfle i fyfyrwyr gwrdd ag Aelodau o'r Cynulliad, ymweld â'r Siambr, defnyddio ystod o ffynonellau gwybodaeth yn y neuadd arddangos, a chymryd rhan mewn gweithgareddau yn ystafell yr Angor a'r Hwyl sy'n rhan o'r cyfleusterau addysgol ar lawr cyntaf yr adeilad.

Mae athro yn gweithio yn y swyddfa a agorwyd yn y Gogledd yn ddiweddar i roi cymorth i ysgolion yn y rhanbarth. Mae'r tîm addysg hefyd yn trefnu gweithdai a digwyddiadau ledled Cymru, ac mae'r rhain yn gyfle i bobl ifanc holi eu cynrychiolwyr a mynegi eu safbwyntiau a'u barn. Mae'r digwyddiadau hyn wedi cael ymateb da gan yr ysgolion a fu'n cymryd rhan.

Elfen arall o'r gwaith yw paratoi a chyflwyno hyfforddiant mewn swydd i athrawon i egluro'n llawn sut y gall y gwasanaeth addysg wella a hwyluso ei waith. Datblygwyd cyfres o ddeunyddiau addysgol ar gyfer athrawon. Gellir llwytho deunydd rhyngweithiol ar-lein i lawr er mwyn cael adnoddau i gynorthwyo myfyrwyr sy'n dysgu am ddemocratiaeth a dinasyddiaeth. Gellir cael hyd i ragor o wybodaeth ar wefan Cynulliad Cenedlaethol Cymru: www.wales.gov.uk/learningzone.